# Cynhyrchu Buchod Sugno Eidion Cymreig



## Mynd i'r Afael â'r Dirywiad a Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy

NFU CYMRU

NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 1 04/02/2026 12:01

# Rhagair

**Er gwaethaf prisiau cryf a lefelau'r galw am gig eidion Cymru, mae nifer y gwartheg sugno – a gedwir i gynhyrchu cig eidion – wedi bod yn gostwng yng Nghymru ers tro byd. Gwelir tueddiadau tebyg ledled Prydain gyda phryderon am fàs critigol y sector.**

Gyda golwg ar hyn, mae Da Byw NFU Cymru a'r Byrddau Ardaloedd Llai Ffafriol wedi dod at ei gilydd i edrych ar ddyfodol buchod sugno yng Nghymru. Mae'r byrddau'n bendant bod gwartheg sugno ochr yn ochr â chynhyrchu PGI Cig Eidion Cymru blasus, maethlon, o ansawdd uchel y mae galw amdano gartref a thramor, yn golygu manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol lluosog i Gymru. Yn rhan annatod o ffermio da byw yng Nghymru, mae gwartheg sugno yn rhan bwysig o'n diwylliant a'n treftadaeth ac mae wedi bod yn rhan anhepgor o ffurfio a rheoli ein tirweddau eiconig yng Nghymru dros genedlaethau.

Mae'r Papur Polisi hwn gan NFU Cymru yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu gwartheg sugno yng Nghymru ac ar yr adeg hon o newid mawr i'r diwydiant, yn cyflwyno argymhellion polisi i ddiogelu ei ddyfodol.

**Robert Lewis**, Cadeirydd Bwrdd Da Byw NFU Cymru

**Kath Whitrow**, Cadeirydd Bwrdd Ardaloedd Llai Ffafriol (LFA) NFU Cymru




# Cyflwyniad

**Mae cynhyrchu cig eidion yn sector allweddol o fewn ffermio da byw yng Nghymru gyda chig eidion sugno, a gynhyrchir o wartheg sugno, yn rhan annatod o hynny - ochr yn ochr â chig eidion llaeth a gynhyrchir o'r fuches odro.**

Mae dros 6,000 o fuchesi buchod sugno yng Nghymru sy'n cyfrannu £390m neu 18.6% o allbwn amaethyddol Cymru . Amcangyfrifwyd fod allforion cig eidion Cymreig, yn 2024, yn werth £79m gyda 90% (£71m) yn cael ei allforio i'r UE.

Mae llawer o'r buchesi hyn, sydd â 23 o anifeiliaid bridio ar gyfartaledd , i'w cael yn Ardaloedd Llai Ffafriol Cymru (ALIFf) sy'n cyfrif am oddeutu 80% o'r tiroedd ffermio. Mae'r ardaloedd hyn yn naturiol wedi'u cyfyngu gan hinsawdd a thopograffeg ac maent yn aml yn bell o'r marchnadoedd. Maent yn fwyaf addas ar gyfer tyfu glaswellt y gellir ei droi'n gig coch o ansawdd uchel, a phrotein a maetholion sy'n llawn maetholion gan anifeiliaid sy'n cnoi cil. Systemau pori gwartheg a phori cymysg, sy'n cynnwys defaid ochr yn ochr â gwartheg, yw sylfaen cynhyrchu bwyd yn ardaloedd ALIFf Cymru, gan helpu i gynnal cymunedau ffermio hyfyw, ein tirweddau eiconig a'r Gymraeg.

Mae gan gig eidion Cymru enw da am ansawdd ac mae'n ffynhonnell bwysig o brotein, fitaminau a mwynau, ac mae galw mawr amdano mewn marchnadoedd cartref a thramor.

Rhagwelir y bydd y defnydd o gig eidion yn fyd-eang yn cynyddu 11% erbyn 2033 ac mae adnoddau naturiol cyfoethog Cymru, gan gynnwys ein hinsawdd dymherus a'n glawiad uchel, ynghyd â sgiliau hwsmonaeth medrus ein ffermwyr, yn rhoi'r sector mewn sefyllfa gref i gynhyrchu cig eidion cynaliadwy yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau a ragwelir i systemau cynhyrchu bwyd mewn mannau eraill.

Mae nifer y daliadau cig eidion wedi gostwng o 10,816 yn 2004 i 6,595 yn 2023 . Bu gostyngiad o fwy na 14% yn nifer y gwartheg bridio (bridiau nad ydynt yn rhai godro) i 149,290 rhwng 2013 a 2023. Mae Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Mehefin 2025 yn dangos gostyngiad pellach o 5% ym maint y fuches cig eidion o'i gymharu â Mehefin 2024. Yn 2000, roedd maint y fuches bridio cig eidion (gwartheg eidion a heffrod cyflo) yn bron i 248,000. Gwelir tueddiadau tebyg ledled Prydain gyda phryderon am fàs critigol y sector.

Yn y papur polisi hwn, mae NFU Cymru yn edrych ar y rhesymau am y dirywiad hwn, yn ogystal ag edrych ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer y dyfodol ar adeg o newid mawr i'r diwydiant da byw yng Nghymru

Mae NFU Cymru wedi ymrwymo i ddod o hyd i atebion sy'n galluogi buchesi gwartheg sugno i barhau â'u rôl hanfodol sy'n sail i fywiogrwydd economaidd a chyflogaeth yn rhai o ardaloedd mwyaf anghysbell Cymru, gan hybu'r gwaith o reoli parhaus a gweithredol rhai o gynefinoedd pwysicaf a thirweddau mwyaf eiconig Cymru a pharhau i gyfrannu'r deunyddiau crai at sector bwyd sylfaenol Cymru sy'n werth £10.2 biliwn – cyflogwr mwyaf Cymru. I'r perwyl hwn, mae'r papur yn cyflwyno cyfres o argymhellion polisi i ddiogelu dyfodol y sector sugno.



NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 2-3 04/02/2026 12:01

# Cynhyrchiant

**Mae Cymru'n gallu ymfalchïo mewn nifer o gynhyrchwyr cig eidion arobryn sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu cig eidion proffidiol a chynaliadwy. Mae gwelliannau mewn dulliau cynhyrchu ac effeithlonrwydd yn cael eu hybu gan ystod o ffactorau gan gynnwys geneteg, rheoli glaswelltiroedd, effeithlonrwydd bwydydd anifeiliaid a'r defnydd o dechnoleg ac arloesi fel adnabod electronig (EID) a chronfeydd data sy'n meincnodi perfformiad buchesi.**

Gall EID gwartheg helpu i gasglu data, arbed amser, lleihau'r risg i wartheg a gweithredwyr - gwella diogelwch y fferm; hefyd darparu data symud amser real yn unol â'r gronfa ddata gwartheg newydd a ddisgwylir yn 2027. Mae cymorth buddsoddi parhaus yn y maes hwn yn bwysig, gan nodi y bydd angen cymorth ar fuchesi sugno llai i addasu i'r system newydd ac i wireddu manteision ehangach trefniadau casglu data gwell.

Er gwaethaf y galw uwch gan ddefnyddwyr am gig eidion a phrisiau cryf yn ddomestig ac yn fyd-eang, mae nifer y gwartheg sugno wedi bod yn gostwng yn y tymor hir yng Nghymru ac mae hyder ffermwyr yn y sector ar ei isaf. Gwelwyd gostyngiadau tebyg ar draws gweddill y DU. Mewn gwledydd eraill fel yr Alban ac Iwerddon, mae rhaglenni cymorth sydd wedi'u targedu at y sector cig eidion wedi'u rhoi ar waith. Er enghraifft, yn yr Alban, mae'r fenter 'Meating our potential' yn fenter gydweithredu sydd â'r nod o ennyn hyder i gynyddu galluoedd cynhyrchu a lleihau dibyniaeth gynyddol ddiangen ar gig coch wedi'i fewnforio o wledydd arall. Nid oes unrhyw gefnogaeth na mentrau tebyg yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae cynhyrchu cig eidion sugno yn fusnes tymor hir gyda chostau cychwynnol uchel. Mae elw cynhyrchu gwartheg sugno wedi bod dan bwysau ers blynyddoedd lawer ac mae costau mewnbwn a chyfalaf uchel yn bryder mawr i broffidioldeb a hyfywedd tymor hir y sector. Mae data'r Arolwg o Fusnesau Ffermio yng Nghymru yn dangos bod y gost gynhyrchu gyfartalog yn 2024/25 yn 256 ceiniog y kg o bwysau byw, gan amrywio o 166 ceiniog y kg o bwysau byw ar gyfer y traean uchaf a 352 ceiniog y kg o bwysau byw yn y traean isaf lle mae costau sefydlog yn uwch yn gyffredinol . Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan HSBC o wartheg sugno (lloi yn y gwanwyn) yn dangos elw net (cyn taliadau cymorth) rhwng -97.2 a -44 ceiniog y kg pwysau byw.

Mae gallu ffermwyr i barhau yn y sector hefyd dan bwysau oherwydd materion ehangach fel rheoleiddio a TB mewn gwartheg sy'n cael sylw'n nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## **Harri Parri** – ffermwr cymysg ym Mhen Llŷn

***Ochr yn ochr â'n mentrau defaid, âr ac wyau buarth, rydym yn cadw oddeutu 200 o wartheg pesgi ar dros 700 erw yng Nghrugeran gyda'r dilynwyr yn cael eu cadw fel amnewid, sy'n cael eu gwerthu i'w bridio neu eu pesgi ar y fferm.***

*Mae ein pwyslais yn driphlyg - dewis y geneteg cywir, cael statws iechyd uchel, a darparu maeth o safon fel sail i broffidioldeb. Mae cofnodi perfformiad a defnyddio Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVs) yn ganolog i'n dull fel bridiwr stoc bridio. Rydym yn canolbwyntio ar y nodweddion mamol ac economaidd. Dyma'r hyn y gallwn ei reoli a pheidio â phoeni'n ormodol am y pris terfynol. Dwysedd stocio uchel o wartheg ffrwythlon heb lawer o ofynion cynnal yw'r prif sbardun i sicrhau proffidioldeb mewn buches sugno. I gyflawni hyn, rydym yn defnyddio nifer o EBVs a nodweddion. Pwysau geni, maint buwch aeddfed, a dyfnder y braster i enwi dim ond rhai. Mae hyn i gyd yn berthnasol i fuches fasnachol sy'n cynhyrchu gwartheg stôr neu besgi.*





# Elfennau cymdeithasol a diwylliannol treftadaeth

**Mae gwartheg sugno yn gynhenid i wead cymdeithasol rhai o ardaloedd mwyaf anghysbell Cymru. Gan gynnal cadarnle i'r Gymraeg, mae'r lleoedd eiconig hyn yn dirweddau byw, gweithiol, deinamig. Mae ffermio da byw wedi cynnal ein cymunedau ffermio ers canrifoedd, gan gynnig cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae ffynonellau eraill o gyflogaeth wledig fel twristiaeth hefyd yn elfennau hanfodol.**

Mae pori gwartheg dros genedlaethau wedi ffurfio tirwedd eiconig Cymru. Wedi'u nodweddu gan adeiladau traddodiadol a chaeau caeedig sy'n gofyn am amrywiaeth o sgiliau traddodiadol fel gwrychoedd a waliau cerrig sych – mae'r nodweddion traddodiadol hyn yn rhan allweddol o'n treftadaeth ddiwylliannol ac yn ganolog i ddarparu 'ymdeimlad o le' unigryw ochr yn ochr â'n bridiau da byw brodorol Cymreig. Wedi'i gydnabod o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, mae cynnal a hyrwyddo adnoddau genetig ein bridiau brodorol a'r croesfridiau sy'n deillio ohonynt felly yn hanfodol i warchod diwylliant ffermio a thraddodiadau bridio Cymru.

Yn y cyd-destun hwn, mae ein buchesi cig eidion sugno'n chwarae rhan bwysig wrth wella profiad ymwelwyr â chefn gwlad Cymru. Dylid canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraniad pwysig gwartheg i'n hamgylchedd yn ogystal â diogelwch y cyhoedd, yn enwedig yn achos ymwelwyr â chŵn, ar hawliau tramwy ac ar diroedd comin i sicrhau eu diogelwch yn agos at wartheg gan gynnwys teirw, gwartheg â lloi ar draed a stoc ifanc. Yn yr un modd, mae lefelau isel o ddealltwriaeth o'r risgiau o glefydau sy'n gysylltiedig â neospora, a rhaid gwneud mwy i helpu'r sector i godi ymwybyddiaeth o hyn ymhlith y cyhoedd.

## **Jessica Williams** – ffermwr cig eidion a defaid ym Mryncrug, Tywyn



***Rwy'n ffermio yn Nolaugwyn mewn partneriaeth â fy ngŵr Hugh. Mae'r fferm yn gartref i fuchesi o Wartheg Duon Cymreig Rhydygarnedd a Gerddi Bluog. Mae cyfran o'r disgynyddion benywaidd yn cael eu cadw bob blwyddyn wrth i fenywod bridio eraill gael eu gwerthu yng ngwerthiannau pedigri Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig, gyda rhai'n mynd i brynwyr tramor. Mae'r bustych yn cael eu marchnata trwy Farmers Marts, Dolgellau, gydag ambell fustach yn cael ei arddangos yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.***

*Gwartheg Duon Cymreig yw un o'r bridiau hynaf ym Mhrydain ac maent wedi cael eu bridio yng Nghymru am dros 1000 o flynyddoedd. Mae'r gwartheg yn rhan annatod o'r dirwedd hynafol hon, sy'n codi i fyny'r llethrau serth o fuarth y fferm. Fel safle o bwys hanesyddol, mae'r tŷ a'r beudy'n dyddio'n ôl i'r 1600au ac mae ganddynt restriad Gradd II*.*

*Rydym yn cyfuno cryfderau traddodiadol y brîd â datblygiadau technolegol, gan roi pwyslais mawr ar iechyd y fuches, gyda'r fuches yn cael "Statws Iechyd Buches Elitaidd". Mae'r gwartheg yn Nolaugwyn yn ddolen gyswllt rhwng y gorffennol a'r dyfodol yn y dirwedd wledig hon, gan roi hwb i ffermio a'r amgylchedd.*



NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 4-5 04/02/2026 12:01

# Yr Amgylchedd

**Mae systemau cynhyrchu cig eidion sugno yn sylfaenol gynaliadwy, gan gynhyrchu protein o ansawdd uchel ar dir ymylol sy'n anaddas ar y cyfan i gnydau eraill. Mae glaswellt a dŵr glaw yn cael eu defnyddio i fagu anifeiliaid, ac felly nid yw effaith eu cynhyrchu'n cael ei allforio nac yn cyfrannu at ddatgoedwigo na defnydd anghynaliadwy o adnoddau dŵr fel mewn rhannau eraill o'r byd.**

Mae gan systemau pori gwartheg a phori cymysg ran bwysig i'w chwarae mewn rheoli cynefinoedd. Mae pori gwartheg yn hybu amrywiaeth ehangach o blanhigion a strwythur y borfa. Gall sathru helpu i atal lledaeniad rhedyn. Mae ymchwil wedi dangos bod diffyg gwartheg sy'n pori wedi bod yn allweddol i ymlediad rhywogaethau glaswellt mynydd goresgynnol fel Molinia, sy'n cael ei gysylltu â cholli cynefinoedd rhostiroedd sydd o bwys cadwraethol rhyngwladol. Mewn hinsawdd sy'n newid, mae'n debygol y bydd gwaith pori buchesi gwartheg sugno yn mynd yn fwyfwy pwysig i reoli'r llystyfiant sy'n crynhoi ac i leihau'r risg o danau gwyllt, yn enwedig ar dir comin sy'n cyfrif am 10% o arwynebedd tir Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd mewn pori ar diroedd comin gyda gwartheg yn gwisgo technoleg fel coleri GPS.

Mae tir fferm Cymru hefyd yn gweithredu fel storfa garbon bwysig. Mae da byw yn chwarae rhan allweddol mewn ffermio adfywiol - mae tir amaethyddol sy'n cael ei bori gan wartheg yn elwa ar y tail sy'n cynyddu lefel y deunydd organig yn y pridd. Mae corff cynyddol o dystiolaeth hefyd sy'n credu y gall anifeiliaid pori o dan reolaeth briodol atafaelu a storio mwy o garbon yn y pridd. Mae cynhyrchu tail o fuchesi gwartheg sugno hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion yr economi gylchol, gan leihau dibyniaeth ar wrteithiau carbon ddwys wedi'u gweithgynhyrchu– sy'n hanfodol ar gyfer glaswelltir a systemau âr yn unol ag egwyddorion ffermio adfywiol.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn adroddiad Y Ffordd Gymreig Hybu Cig Cymru (HCC) yn dangos bod gan gig eidion Cymru nodweddion cynaliadwyedd uchel, gydag allyriadau cynhyrchu cig eidion yng Nghymru tua 40% o'r cyfartaledd byd-eang. Mae'r honiad bod gwartheg yn ddrwg i'n hamgylchedd, felly, yn ffug a niweidiol ac yn rhy aml yn seiliedig ar ystadegau byd-eang nad ydynt yn adlewyrchu'r systemau cynhyrchu yma yng Nghymru.

Mae'n bwysig cydnabod ymdrechion pwysig ffermwyr i wella cynaliadwyedd ymhellach. Mae lleihau allyriadau ledled y sector cig coch yn cael ei gyflawni drwy fesurau effeithlonrwydd ac, er bod pob fferm yn wahanol, mae mesurau fel geneteg a bridio ar gyfer nodweddion dymunol penodol, llai o fylchau lloia a llai o farwolaethau yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchiant. Yn y cyfamser, gall pwyslais ar effeithlonrwydd bwyd anifeiliaid, gan ddefnyddio porthiant cartref a phroteinau ac atchwanegiadau bwyd anifeiliaid hefyd leihau allyriadau methan. Mae NFU Cymru yn cefnogi gwaith ymchwil, datblygu a chyfnewid gwybodaeth ochr yn ochr â chymorth buddsoddi sy'n hybu effeithlonrwydd y sector.

Mae'r diffyg data ar arferion ar ffermydd a'r diffyg cysoni mewn offer cyfrifo nwyon tŷ gwydr (GHG) yn golygu ei bod yn dal yn anodd ceisio dangos cynnydd ymdrechion i leihau allyriadau fesul uned gynhyrchu. Bydd gan gynnig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar gyfer gwaelodlin garbon ar lefel fferm rôl i'w chwarae wrth ddangos cynaliadwyedd y sectorau ac olrhain cynnydd, gan gydnabod mai un mesur yn unig yw allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae adrodd deuol ar allyriadau methan gan ddefnyddio GWP* a GWP100 hefyd yn cynnig cyfleoedd i greu darlun mwy cyflawn o'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r sector cig eidion.

## Katie-Rose Davies - ffermwr cig eidion a defaid yng Nghymoedd De Cymru

***Mae ein fferm, ger Pen-y-bont ar Ogwr, yn codi o 1,000 troedfedd ar y buarth i 1,850 troedfedd ar ei phwynt uchaf ar Fynydd y Bwlch. Rydym yn cadw 800 o famogiaid mynydd De Cymru a 45 o wartheg sefydlogi, gan werthu lloi sugno yn 6-7 mis oed yn syth o'r fuwch.***

*Y nod yw bridio gwartheg o gorffolaeth fechan sy'n cadw'u cyflwr a'u gallu i ffynnu a pherfformio mewn amgylchedd bryniau garw. Mae gwartheg sugno yn adnodd hanfodol ar ucheldiroedd a bryniau Cymru, gan droi porthiant o ansawdd gwael yn gig o ansawdd uchel, a chwarae rhan hanfodol wrth reoli'r ardaloedd helaeth o gynefin ar ein fferm ac atal tresmasu gan Molinia.*

*Rydym yn defnyddio technoleg pori rithwir heb ffensys i helpu i fonitro symudiad y fuches a chreu blociau pori sydd wedi'u targedu ar rannau o'r bryniau gyda'r nod o wella'r SoDdGA sy'n cael ei danbori. Gan weithio â Gwasanaeth Tân De Cymru, rydym hefyd yn pori gwartheg i leihau'r risg o danau gwyllt drwy greu toriadau tân.*





NFU CYMRU

NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 6-7 04/02/2026 12:01

# Y farchnad

**Mae'r DU yn cyflenwi 85% o'i chig eidion ei hun ac yn fewnforiwr net, gan fewnforio 154,000 tunnell yn 2023 ac amcangyfrifir o 164,000 tunnell yn 2024. Rhagwelir y bydd y diffyg i gyflenwi'r galw yn y DU yn cynyddu ymhellach i 278,000 tunnell erbyn 2030. Mae'r galw byd-eang am gig eidion hefyd yn mynd i gynyddu ac mae ffactorau fel twf yn y boblogaeth, newid yn yr hinsawdd a chystadleuaeth gynyddol am adnoddau prin yn golygu na ellir bellach cymryd diogeled bwyd yn ganiatool.**

Yn y cyd-destun hwn, mae cyfleoedd sylweddol gartref a thramor i gynhyrchwyr cig eidion Cymru ar draws y systemau cynhyrchu cig eidion sugno a llaeth os gellir mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu ffermwyr.

Mae NFU Cymru wedi bod yn galw ers amser am strategaeth fwyd gynhwysfawr 'Fferm i'r Fforc', gan gydnabod y rôl sylfaenol y mae ffermio a chynhyrchu bwyd Cymru yn ei chwarae yn ein heconomi, yr heriau i gynhyrchu bwyd yn fyd-eang a'r ansefydlogrwydd gwleidyddol a'r gwrthdaro yn Ewrop a thu hwnt.

Mae marchnata a hyrwyddo effeithiol yn allweddol i gynyddu masnach cig eidion Cymru ac mae gan Hybu Cig Cymru (HCC) rôl ganolog mewn buddsoddi arian talwyr yr ardoll i hyrwyddo cig eidion Cymru, ei ansawdd a'i nodweddion cynaliadwyedd yn rhyngwladol. Rhaid i dalwyr yr ardoll deimlo bod atebolrwydd gwirioneddol i sut mae eu harian yn cael ei wario. Gan gydnabod y cyfleoedd economaidd gwirioneddol sydd ar gael, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi twf allforio drwy ddarparu arian cyfatebol at gyfraniadau talwyr yr ardoll. Mae angen ystyried sut y gall yr ardoll a chyllid y llywodraeth gyfuno i hybu datblygiad, marchnata a hyrwyddo cig eidion Cymru, gan ddilyn esiampl cynlluniau sydd ar waith mewn gwledydd eraill, er enghraifft, y Bord Bia yn Iwerddon.



Mae gwireddu'r manteision i gynhyrchwyr cig eidion Cymru yn dibynnu ar bolisïau'r llywodraeth a bod manwerthwyr yn cydnabod safonau cynhyrchu uchel Cymru ac yn ymrwymo i ddiogelu cynhyrchwyr cig eidion Cymru rhag cael eu tanseilio gan gynhyrchion wedi'u mewnforio a gynhyrchir yn ôl safonau is. Mae labelu clir, gan gynnwys y tu allan i'r wlad, sy'n hysbysu defnyddwyr am darddiad ac ansawdd y cynhyrchion cig maent yn eu prynu'n hanfodol.

Ers inni adael yr UE, mae'r cyfrifoldeb am bolisi masnach yng ngofal Llywodraeth y DU. Mae cystadleuaeth fyd-eang annheg ac amodau anghyfartal yn golygu risgiau economaidd i ffermwyr Cymru. Mae'n hanfodol nad yw cytundebau masnach presennol yn caniatáu mewnforion a gynhyrchir mewn ffyrdd a fyddai'n anghyfreithlon yma neu sydd â safonau is.

Hefyd, dylai cytundebau masnach gynnwys cymalau diogelu adweithiol ac effeithlon i liniaru unrhyw aflonyddwch yn y farchnad o ganlyniad i anghydbwysedd mewn masnach. Dylai polisïau masnach hefyd ystyried y ffaith bod y gost o gynhyrchu i'r safonau a ddisgwylir yng Nghymru yn llawer uwch o'i gymharu â llawer o gystadleuwyr rhyngwladol eraill.

Mae cyflawni Statws Risg Ddibwys ar gyfer BSE yn gadarnhaol o ran cyfleoedd masnach fyd-eang. Fodd bynnag, mae'r risg bresennol o gyflwyno clefydau egsotig trwy dwyll bwyd a chig anghyfreithlon sy'n dod i mewn i'r DU yn annerbyniol. Rhaid i lywodraethau ymrwymo i sicrhau mesurau rheoli ffiniau effeithiol, cymesur ac wedi'u hariannu'n dda a gorfodaeth ddigonol i ddileu gweithgarwch anghyfreithlon.



## **Siôn Jones,** Cigydd Siôn Jones Butchers, Llanon, Ceredigion



***Ym musnes Cigydd Siôn Jones Butcher, rydym yn falch o wasanaethu amrywiaeth eang o gwsmeriaid, o'n cwsmeriaid ffyddlon i'r rhai sy'n galw heibio ar y penwythnos neu ar gyfer achlysuron arbennig, a'r ymwelwyr niferus sy'n dod i fwynhau gwyliau ar hyd arfordir Ceredigion. Yn ogystal â'n siop yn Llanon, rydym yn dosbarthu yn lleol am ddim ac yn cyflenwi wyth siop leol arall dair gwaith yr wythnos.***

*Mae chwaeth defnyddwyr yn esblygu'n barhaus, felly rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn addasu ac arloesi. Mae tua hanner yr hyn rydym yn ei werthu'n gynnyrch newydd neu wedi'u hail-greu i adlewyrchu'r newidiadau mewn ffyrdd o fyw a dewisiadau, o brydau parod cyfleus i eitemau poblogaidd fel ein trwfflau cig eidion a'n ffefrynnau tymhorol.*

*Mae prynu stoc lleol gan ffermwyr dibynadwy wrth wraidd popeth a wnawn. Ochr yn ochr â chig eidion o'n ffermydd teuluol ein hunain, rydym yn gweithio'n glos â nifer fach o ffermwyr lleol sy'n rhannu'r un ymrwymiad i les ac ansawdd uchel â ni. Mae ymdeimlad cryf o ymddiried a pharch rhyngom, ac rydym yn deall y pwysau y mae ffermwyr yn eu hwynebu. Credwn yn llwyr eu bod yn haeddu pris teg am ansawdd eu cynnyrch.*

*Rydym yn defnyddio'r lladd-dy yn Nhregaron, sy'n parhau i fod yn brysur ac yn cael ei gefnogi'n dda gan gynhyrchwyr lleol. Mae hyn yn ein helpu i gadw'r milltiroedd bwyd yn isel a galluogi olrhain y cynnyrch o'r fferm i'r fforc, rhywbeth mae ein cwsmeriaid yn ei werthfawrogi.*

*Pan ddaw'n fater o bris, rydym yn falch o fod yn gystadleuol, ond mae ansawdd ein cig eidion lles uchel yn ein gosod ar wahân mewn gwirionedd. O'r cae i gownter y siop, mae ein pwyslais bob amser ar gynhyrchu a chyflenwi'r cig gorau posibl i'n cymuned.*



# Y cynnyrch

Mae cig eidion Cymru yn bryd o ddewis sylfaenol ac amlbwrpas iawn i ddefnyddwyr, ac yn bwysig fel rhan o ddeiet cytbwys, yn unol ag argymhellion Bwyta'n Dda y GIG. Mae cig eidion yn llawn o faetholion ac yn ffynhonnell bwysig o brotein, fitaminau a mwynau fel haearn, sinc a fitamin B12, sydd â gwell argaeledd bio na ffynonellau eraill.

Ailbwysleisiwyd y rôl hanfodol y mae cig coch yn ei chwarae mewn deiet gan dros 1,000 o wyddonwyr yn Natganiad Dulyn a nododd fod bwydydd sy'n deillio o dda byw'n cynnig amrywiaeth o faetholion hanfodol a chyfansoddion eraill sy'n hybu iechyd, gyda llawer ohonynt yn brin mewn deietau'n fyd-eang, hyd yn oed ymhlith y poblogaethau hynny sydd ag incwm uwch.



NFU CYMRU

NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 8-9 04/02/2026 12:01

# Y gadwyn gyflenwi

**Mae carcasau cig eidion yn cynhyrchu amrywiaeth eang iawn o doriadau a chynhyrchion ar gyfer pob math o brisiau sy'n bodloni gofynion marchnad amrywiol ar gyfer marchnadoedd domestig a thramor. Mae sgil-gynhyrchion yn cynnwys crwyn a gwêr – ac mae'r ddau'n bwysig yn y marchnadoedd byd-eang.**

O fewn systemau cig eidion sugno, mae gennym ystod eang o systemau cynhyrchu ac opsiynau marchnata. Mae hyn yn cynnwys rhwydwaith Cymru o farchnadoedd da byw sy'n chwarae rhan ganolog fel canolfannau economaidd a chymdeithasol sy'n sail i fywiogrwydd ein hardaloedd gwledig.

Fodd bynnag, fel yn achos y sectorau ffermio eraill, mae cynhyrchwyr cig eidion sugno, i bob pwrpas, yn derbyn prisiau ac yn agored i anwadalrwydd cynhenid ac amrywiadau'r farchnad. Yn y cyd-destun hwn, mae NFU Cymru yn pwysleisio'r angen i gadwyni cyflenwi weithredu'n deg, yn dryloyw ac yn gymesur. Rydym yn annog trefniadau cytundebol ac yn credu y dylid cosbi arferion annheg gan eraill yn y gadwyn fwyd. Mae angen tryloywder yn y farchnad o fewn y sector i sicrhau bod prisiau'n adlewyrchiad teg o'r farchnad.

Ar hyn o bryd mae cyfran fach o gig eidion sugno yn cael ei gwerthu trwy gadwyni bwyd integredig ac efallai bod cyfleoedd i gynyddu hyn er budd cynhyrchwyr sy'n gweithio gyda phroseswyr, manwerthwyr a'r sector gwasanaeth bwyd. Mae cyfleoedd hefyd i gynyddu nifer y gwartheg sydd wedi'u pesgi yng Nghymru gan gadw'r gwerth ychwanegol yng Nghymru.

### **Rhys Evans,** Prif Weithredwr, Farmers Marts (R G Jones) Ltd, Dolgellau

***Sefydlwyd cwmni Farmers Marts (R G Jones) Ltd, curiad calon bywiog cymuned amaethyddol Meirionnydd yn 1953.***

*Rydym yn gymdeithas gydweithredol sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau arwerthu yn Nolgellau, Machynlleth, ac yn Y Bala. Mae ein gwerthiannau o wartheg stôr o'r fuches fagu yn sylfaenol hanfodol i'r busnes ac yn rhan o'r gadwyn fwyd, gyda thraddodiad cyfoethog o gysylltu prynwyr a gwerthwyr lleol a phellach i ffwrdd. Er y prisiau cadarn ar hyn o bryd, rydym yn bryderus am y niferoedd o wartheg biff yng Nghymru yn y dyfodol, cnewyllun ffermio yn yr ardal Gymreig hon o Gymru.*



## Caffael

Mae NFU Cymru wedi bod yn tynnu sylw ers amser at gyfleoedd y gallai Lywodraeth Cymru fanteisio arnynt i sicrhau cadwyni cyflenwi tecach a mwy tryloyw, ac arweinyddiaeth yn achos caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gyda'i nodweddion cynaliadwyedd a'i werth maethol uchel, dylai PGI Cig Eidion Cymru fod yn ddewis cyntaf o ran prynu cynnyrch i ysgolion, ysbytai a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, gan leihau milltiroedd bwyd, cefnogi swyddi newydd a sicrhau bod y gwerth ychwanegol ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi yn cael ei gadw yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi mesurau ar waith i sicrhau bod unrhyw gynnyrch bwyd a brynir gan y sector cyhoeddus o'r tu allan i Gymru yn cyfateb neu'n rhagori ar y safonau y mae'n ofynnol i ffermwyr Cymru gydymffurfio â hwy.

# Màs Critigol

**Mae màs critigol yn hanfodol i gynnal sector cig eidion Cymru a'r gadwyn gyflenwi ehangach sy'n darparu cyflogaeth allweddol mewn rhannau o Gymru lle mae cyfleoedd gwaith yn brin. Mae niferoedd da byw digonol yn hanfodol i greu elw hyfyw i fusnesau cadwyn gyflenwi fel lladd-dai, practisau milfeddygol, marchnadoedd, cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd anifeiliaid.**



Mae'r sector prosesu yng Nghymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith, offer a staff ac ar hyn o bryd nid yw'n gweithredu ar gapasiti llawn. Mae nifer y lladd-dai yng Nghymru wedi gostwng o 34 yn 1995 i 17 yn 2023, gyda thua 90% o'r trwybwn yng Nghymru bellach yn cael ei brosesu trwy dri lladd-dy. Mae màs critigol o wartheg yn hanfodol i wneud y gorau o effeithlonrwydd a sicrhau bod digon o faint a pharhad y cyflenwad ar gael i ateb y galw am ein cynnyrch gartref a thramor.

Er mwyn gwasanaethu'r nifer fwyaf posibl o farchnadoedd, mae'n bwysig cael cymysgedd da o ladd-dai mawr, canolig a bach sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled Cymru. Mae ein lladd-dai mwy yn ein galluogi i gael mynediad at y prif fanwerthwyr a'r marchnadoedd allforio, tra bod lladd-dai llai yn cynnig hyblygrwydd pwysig i ychwanegu gwerth drwy farchnata uniongyrchol, gan gyflenwi manwerthwyr annibynnol a'r sector lletygarwch. Mae sicrhau buddsoddiad, mynediad cyfyngedig at lafur medrus, gostyngiad gwerth y pumed chwarter a heriau parhaus o ran cymhwyso rheolaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn heriau sylweddol i'r sector lladd-dai yng Nghymru y mae angen mynd i'r afael â nhw.




### **Dr Julie Finch**, Kepak

***Mae Kepak yn un o brif gwmnïau bwyd y DU ac Iwerddon, yn rhedeg 16 o safleoedd ar draws y ddwy wlad ac yn cyflogi miloedd o bobl mewn cymunedau lleol.***

*Ein safle ym Merthyr Tudful yw prif safle'r Grŵp ar gyfer prosesu gwartheg a defaid. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn seilwaith, offer a phobl i sicrhau bod y safle'n gweithredu'n effeithiol ac yn gyfrifol ar gyfer ein cwsmeriaid. Heddiw, mae safle Merthyr yn cyflogi dros 1,200 o gydweithwyr medrus ac yn cyfrannu dros £200 miliwn yn flynyddol i economi Cymru.*

*Mae cyflenwad dibynadwy a chynaliadwy o dda byw yn hanfodol i ddiwallu'r galw cynyddol am brotein maethlon o ansawdd uchel. Mae eidion sugno yn chwarae rhan bwysig yn y cyflenwad hwn. Ers cenedlaethau, mae gwartheg sugno cryf wedi helpu i lunio a rheoli tirwedd Cymru, gan gefnogi bioamrywiaeth ac ar yr un pryd yn cynhyrchu bwyd llawn maetholion ar dir sydd gan fwyaf yn anaddas ar gyfer mathau eraill o gynhyrchu bwyd.*

*O'r herwydd, mae cynnal poblogaeth ddigonol o wartheg, gan gynnwys buchesau sugno, yn bwysig ar gyfer diogeledd bwyd hirdymor a sefydlogrwydd cymunedau gwledig ac economi Cymru yn ehangach.*





NFU CYMRU

NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 10-11 04/02/2026 12:01

# Iechyd anifeiliaid

**Mae ffermwyr Cymru yn gweithio i safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r gwerthoedd yma yn sail i gynhyrchiant buchesi buchod sugno, ac maent hefyd yn hanfodol i sicrhau hyder y defnyddwyr yng nghig eidion Cymru. Mae lleihau defnydd o wrthfiotigau ar ffermydd Cymru i leihau'r risg o ymwrthedd i wrthficrobiaid yn un enghraifft o gynnydd diweddar.**

Fodd bynnag, mae twbercwlosis mewn gwartheg (bTB) yn parhau i gael effaith economaidd a seicolegol fawr ar gymunedau ffermio Cymru. Mae data y llywodraeth yn gyson yn dangos bod miloedd o wartheg yn cael eu difa bob blwyddyn oherwydd TB mewn gwartheg ac mae cannoedd o fusnesau fferm yng Nghymru wedi'u cyfyngu oherwydd TB mewn gwartheg.

Mae cyfyngiadau TB mewn gwartheg yn creu problemau penodol i gynhyrchwyr gwartheg sugno gan arwain at broblemau llif arian difrifol i fusnesau.

Nid yw ffermydd sydd dan gyfyngiadau TB mewn gwartheg yn gallu rheoli niferoedd eu stoc ac mae hynny'n effeithio ar eu gallu i gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (COAP), yn enwedig ar gyfer gofynion storio slyri. Gall cyfyngiadau symud sy'n gysylltiedig ag achos TB mewn gwartheg hefyd rwystro pori cadwraethol.

Mae NFU Cymru yn parhau i alw am strategaeth gynhwysfawr i ddileu TB sy'n delio â'r clefyd lle bynnag y mae'n bodoli. Mae Grŵp Ffocws TB NFU Cymru yn parhau i lobïo am newidiadau i bolisi TB sy'n cyflwyno hyblygrwydd ychwanegol ac yn lleihau'r effaith niweidiol o ffermio gyda TB.

Mae NFU Cymru yn cefnogi yr uchelgais o fuches sy'n rhydd o BVD (Dolur Rhydd Feirysol Buchol) yng Nghymru a'r manteision ariannol ac o ran iechyd y fuches, y byddai'n eu dwyn i gynhyrchwyr buchod sugno. Fodd bynnag, mae pryder yn parhau ynghylch y costau a'r baich deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau, yn enwedig ar gyfer cynhyrchwyr ar raddfa fach. Byddai deddfwriaeth yn cydnabod 'tagio a phrofi' wrth bennu statws clefyd yn gam pwysig ymlaen.

Mae clefydau sy'n dod i'r amlwg fel Firws y Tafod Glas yn effeithio ar iechyd a pherfformiad anifeiliaid, yn achosi pryder a chostau a chymhlethdodau cysylltiedig, ac mae pob un ohonynt yn tanseilio'r hyder mewn cynhyrchu gwartheg sugno.

Gall achosion o glefydau endemig ac egsotig gael effaith ddinistriol ar farchnadoedd a masnach. Dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau weithio â'r diwydiant i lunio strategaethau hirdymor i reoli a dileu clefydau, acsy'n cael eu hariannu'n briodol yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth.

Mae atal yn well na gwellhad a bioddiogelwch yw llinell amddiffyn gyntaf ffermwyr o ran iechyd anifeiliaid. Gall pori cymysg olygu manteision i iechyd anifeiliaid gan helpu i leihau'r her barasitiaidd a dibyniaeth ar feddyginiaethau gwrthlyngyr, fodd bynnag, gall dangos yr enillion ar fuddsoddiad mewn isadeiliaith i wella bioddiogelwch a chyfarpar trin stoc yn ddiogel fod yn anodd, yn enwedig yn achos buchesi gwartheg sugno llai, hyd yn oed lle mae cymorth grant ar gael.



**Maarten Davies** - ffermwr da byw, Sir Benfro.

***Rydym yn cadw 85 o wartheg a 120 o famogiaid, gan dyfu'r rhan fwyaf o'r porthiant ar y fferm. Mae'r disgynyddion sydd wedi'u pesgi ar ôl 30 mis yn amrywio o 250kg-410kg pwysau marw yn ddibynnol ar y brîd.***

*Ar ôl cylch pedair blynedd o achosion o TB, penderfynais newid y model busnes o brynu gwartheg stôr i'w pesgi i gynhyrchu cig eidion sugno. Roedd gwneud cais am drwydded bob tro roeddwn i eisiau prynu gwartheg stôr yn cyfyngu arnom ac roeddwn yn cael iawndal yn ôl hanner eu gwerth marchnad yn unig am unrhyw wartheg a oedd yn cael eu difa oherwydd TB. Roedd hynny'n aneconomaidd.*

*Mae'r holl sefyllfa o ran TB yn faich enfawr ac mae byw gyda'r pryder cyson o haint yn effeithio arnoch yn feddyliol.*



# Rheoliadau

**Mae baich y rheoliadau presennol yn achosi straen a phryder i deuluoedd amaethyddol ac yn tanseilio hyder y ffermwyr. Mae hyn yn cynnwys y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (2021) (COAP) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021 gyda chyfnodau pontio ar gyfer rhai elfennau.**

Nododd asesiad effaith rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ei hun y byddai'r rheoliadau yn costio cymaint â £360 miliwn i ffermwyr Cymru mewn costau seilwaith yn unig – gyda chostau ychwanegol ar gyfer cydymffurfio blynyddol. Mae'r gost hon o gydymffurfio wedi codi'n sylweddol o ganlyniad i gostau adeiladu cynyddol, sy'n golygu y gall y costau seilwaith bellach fod yn agos at hanner biliwn o bunnoedd.

Mae'r costau a'r baich sy'n gysylltiedig â Rheoliadau COAP yn golygu anawsterau arbennig i gynhyrchwyr gwartheg sugno na all wneud arbedion maint i gyfiawnhau buddsoddi mewn seilwaith costus i storio slyri a silwair, gan eu gorfodi i ystyried eu dyfodol yn y sector. Mae sicrhau'r caniatâd angenrheidiol ar gyfer seilwaith newydd, hyd yn oed lle mae hyn yn golygu gwelliannau amgylcheddol, hefyd yn her - yn enwedig o fewn tirweddau dynodedig. Mae angen canllawiau diweddaru ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar frys i alluogi datblygu cynllunio ar y fferm i gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol ac er mwyn gwella'r amgylchedd.

Mae angen dadansoddiad cost-budd penodol hefyd i ddeall effaith benodol y rheoliadau ar fuchesi buchesi sugno. Mae angen adolygiad ehangach i sicrhau bod mesurau polisi a rheoleiddio'n helpu'r sector a'r gadwyn gyflenwi mewn ffordd ragweithiol. Wrth edrych ymlaen, dylai unrhyw gynigion ar gyfer tynhau rheoliadau ymhellach fod yn seiliedig ar y data gwyddonol diweddaraf ac wedi'u hategu gan asesiad llawn o'r effaith economaidd sy'n ystyried yr effeithiau penodol ar gynhyrchwyr cig eidion sugno.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd, wrth i'r trawsnewid i'r SFS ddechrau, y bydd y baich rheoleiddio'n trymhau. Mae'r cynllun newydd yn newid sylweddol iawn i ffermwyr. Mae NFU Cymru yn parhau i bryderu am lefel y manylder, y cyfyngiadau, y gwaith gweinyddol, y costau a'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r cynllun, sy'n llawer mwy nag unrhyw beth a welwyd o'r blaen. Bydd angen amser ar ffermwyr i addasu i'r cynllun newydd. Yn y cyd-destun hwn, mae NFU Cymru yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd Taliadau Gwledig Cymru (RPW) yn mabwysiadu dull cynghori o gyflawni ac yn ceisio lleihau'r straen a'r pryder i ffermwyr ar adeg arolygu a'r system o gosbau anghymesur.

Yn fwy cyffredinol, mae NFU Cymru yn parhau i lobïo am grŵp adolygu annibynnol i ystyried baich cynyddol rheoleiddio a biwrocratiaeth ar y sector amaethyddol. Mae angen i adolygiad o'r fath fod yn uchelgeisiol ac yn hollgynhwysol gan annog a chefnogi fframwaith polisi, rheoleiddio a chynllunio galluogi ar gyfer ffermio yng Nghymru.





NFU CYMRU

NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 12-13 04/02/2026 12:01

# Y fframwaith polisi

**Ochr yn ochr â darparu cig eidion Cymru, mae gan systemau cynhyrchu cig eidion sugno rôl economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol bwysig i'w chwarae yn unol ag amcanion rheoli tir cynaliadwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Mae fframwaith cyffredinol y cynllun sydd wedi'i drefnu o amgylch yr haenau gweithredu cyffredinol, dewisol a chydweithredol yn rhoi'r hyblygrwydd i sicrhau sefydlogrwydd sylfaenol a'r cymorth pwrpasol sydd eu hangen ar y sector.**

Mae cyllid ar gyfer yr SFS yn hanfodol ac rydym yn bendant bod angen cyllideb fynegrifol ar ffermio Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau ar gyfer twf, i ategu cydnerthedd ariannol ffermydd teuluol a chymunedau gwledig, ochr yn ochr ac mewn cytgord ag uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd a'r hinsawdd. Mae angen cyllideb aml flwyddyn wedi'i neilltuo o fwy na £500m y flwyddyn - gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid wedi'i gyfeirio i sicrhau sefydlogrwydd ac i hybu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar y fferm. Dylid dyrannu o leiaf 70% o'r gyllideb i haen gyffredinol y Cynllun.

Mae NFU Cymru wedi tynnu sylw ers amser maith at yr angen i'r SFS ddarparu o leiaf yr un lefel o sefydlogrwydd i fusnesau fferm, cymunedau gwledig a'r gadwyn gyflenwi ag y mae'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn ei wneud ar hyn o




bryd. Mae'r Taliad Gwerth Cymdeithasol, sy'n cydnabod y manteision ehangach a ddarperir gan ffermio, sydd wedi'u cynnwys fel rhan o haen gyffredinol y cynllun, yn cynnig elfen hanfodol o sefydlogrwydd. Mae NFU Cymru yn glir bod yn rhaid i'r taliad cyffredinol, gan gynnwys y taliad gwerth cymdeithasol, fod yn nodwedd ganolog o SFS er mwyn sicrhau sefydlogrwydd dros y tymor hir.

Mae NFU Cymru hefyd wedi datgan yn glir y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i addasu'r cynllun os yw sectorau neu ardaloedd penodol dan anfantais neu os gwelir bod y cynllun yn amharu ar ac yn niweidio uchelgeisiau i barhau i dyfu sector bwyd Cymru o'r fferm i'r fforc. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y cysylltiad rhwng cymorth a chynhyrchu, yn enwedig yn y sectorau da byw fel systemau gwartheg sugno sy'n cael eu herio gan ddirywiad strwythurol.

Ar haen ddewisol y cynllun, mae cynhyrchu cynaliadwy wedi'i gynnwys fel un o 14 thema sydd ar gael yn 2026. Nod yr opsiwn hwn yw gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ffermydd ac ar yr un pryd lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG). Mae'r cynnig cychwynnol yn canolbwyntio ar welliannau ac effeithlonrwydd mewn cynhyrchu da byw drwy leihau oedran lladd yr anifeiliaid cig eidion gorau, a hynny mewn ffordd gynaliadwy. Byddai'n gweithio ar fodel o dalu'n ôl canlyniadau os yw'r oedran lladd wedi'i leihau a chofrestru teirw cig eidion gyda chymorth i gofnodi manylion tadau lloi cig eidion ar y System Olrhain Gwartheg.

Rhaid rhoi blaenoriaeth i gyflwyno'r thema hon ar gyfer 2026 a'i datblygu ymhellach, mewn partneriaeth â'r diwydiant, i gynnig cymorth penodol, wedi'i dargedu i gynhyrchwyr gwartheg sugno i ganolbwyntio ar themâu fel amaeth-amgylcheddol a gweithredu ar newid hinsawdd; cymorth incwm cysylltiedig; taliad am gyfyngiadau naturiol ac eraill sy'n benodol i ardal; a buddsoddi mewn adeiladau a seilwaith ffermydd.

Gallai buddsoddiadau cynhyrchiol sy'n cyfrannu at wydnwch y sector, y gadwyn gyflenwi a'n hardaloedd gwledig ganolbwyntio ar:

- Bridio – anifeiliaid buchol o werth genetig uchel ar gyfer bridio i wella ansawdd a chynhyrchiant buchesi da byw neu fridiau lleol sy'n addas i'r amgylchedd.
- Seilwaith - siediau modern wedi'u hawyru'n dda, seilwaith, cyfarpar i drin anifeiliaid, systemau bwydo a rheoli tail
- Iechyd anifeiliaid, llesiant a bioddiogelwch – gan gynnwys unedau ynysu a chyfarpar bioddiogelwch gwell i leihau'r risg o glefydau ar y ffer

Ochr yn ochr â sefydlogrwydd tymor hir a geir drwy'r haen gyffredinol a mesurau pwrpasol ar gyfer y sector ar yr haen ddewisol, bydd cyfnewid gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i wella cynhyrchiant a chystadleurwydd yn ganolog i sicrhau bod nifer y cynhyrchwyr gwartheg sugno yn cael ei sefydlogi a'i gynnal ar gyfer y dyfodol.

Yn fwy cyffredinol, mae'n hanfodol bod teuluoedd ffermio Cymru yn ganolog i bolisi gwledig. Erbyn hyn mae pwysau lluosog, sy'n cystadlu ar ddefnydd tir yng Nghymru. Ni ddylai polisïau hinsawdd Llywodraeth Cymru arwain at newid mewn cynhyrchiant a defnydd tir ar draul cynhyrchu bwyd a chymunedau gwledig.



**Mae gweledigaeth NFU Cymru ar gyfer datblygu polisi amaethyddol newydd yn cynnwys un fframwaith integredig, hyblyg sy'n seiliedig ar dri chonglfaen, sef mesurau cynhyrchiant, amgylcheddol a sefydlogrwydd sydd ar gael i bob ffermwr gweithredol i hybu cynhyrchu bwyd, cymwysterau cynaliadwyedd bwyd a diod Cymru ac i gynorthwyo ag anwadalrwydd incwm sy'n deillio o ffactorau y tu hwnt i reolaeth busnesau fferm unigol.**



NFU2 Cymru - NEW A4 Suckler cow report WELSH.indd 14-15 04/02/2026 12:01

## Ceisiadau allweddol

Er mwyn diogelu dyfodol cynhyrchu cig eidion sugno yng Nghymru, mae NFU Cymru yn galw am:

### Polisi

- Cyllideb dymor hir, aml-flwyddyn, sy'n neilltuo £500m y flwyddyn ar gyfer ffermio yng Nghymru (ar ôl ystyried chwyddiant).
- O leiaf 70% o gyllideb SFS i'r haen gyffredinol. Rhaid i gyllid y cynllun fod o leiaf yr hyn a geir o dan y BPS.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio â'r diwydiant i flaenoriaethu cyflwyno'r Camau Gweithredu Dewisol Cynhyrchu Cynaliadwy (SFS) a datblygu rhaglen gymorth wedi'i thargedu i'r fuches sugno i sicrhau màs critigol.
- Ni ddylai polisïau hinsawdd Llywodraeth Cymru arwain at newid i gynhyrchiant a defnydd tir ar draul cynhyrchu bwyd a chymunedau gwledig.

### Rheoliadau

- Grŵp adolygu annibynnol i archwilio i'r baich rheoleiddio cronnus sydd ar ffermwyr Cymru.
- Newid deddfwriaethol i Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (2021) i sicrhau ei fod yn gymesur ac wedi'i dargedu. Mae angen adolygiad ehangach i sicrhau bod mesurau polisi a rheoleiddio i helpu'r sector cig eidion sugno a'r gadwyn gyflenwi mewn ffordd ragweithiol.
- Canllawiau cynllunio wedi'u diweddaru ar geisiadau cynllunio ffermydd yn achos gofynion rheoleiddiol a manteision amgylcheddol.
- Dylai RPW fabwysiadu dull cynghorol tuag at SFS a lleihau straen a phryder arolygiadau a chosbau anghymesur.

### Marchnata a masnach

- •Strategaeth Fwyd gynhwysfawr 'O'r Fferm i'r Fforc'
- Gwella effeithiolrwydd HCC i gynyddu gwerth i dalwyr yr ardoll. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi twf allforio drwy wneud cyfraniad cyfatebol i dalwyr yr ardoll.
- Mae'n hanfodol nad yw cytundebau masnach presennol yn caniatáu mewnforion a gynhyrchir mewn ffyrdd a fyddai'n anghyfreithlon yma neu sydd o safon is.
- Mae labelu clir, gan gynnwys y tu allan i'r cartref, sy'n hysbysu defnyddwyr o darddiad ac ansawdd y cynhyrchion cig maent yn prynu, yn hanfodol.
- Rhaid i lywodraethau ymrwymo i sicrhau mesurau rheoli ffiniau effeithiol, cymesur ac wedi'u hariannu'n dda a gorfodaeth ddigonol i atal gweithgarwch anghyfreithlon.
- Mwy o gymorth i ffermwyr Cymru drwy ddulliau caffael y llywodraeth.

### Iechyd anifeiliaid

- Strategaeth bTB gynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â chlefydau lle bynnag maent yn bodoli.
- Dylai Cynllun Dileu BVD Cymru gydnabod rôl tagio a phrofi wrth bennu statws anifeiliaid, yn ogystal â dull ar gyfer sgrinio buchesi.
- Rhaid datblygu strategaethau rheoli a dileu clefydau mewn partneriaeth â'r diwydiant ffermio, gyda phwyslais ar wyddoniaeth a thystiolaeth.
- Dylai atal clefydau gyda strategaeth bioddiogelwch trawslywodraethol a diogelu da byw Cymru gyda rheolaethau ffiniau effeithiol fod yn swyddogaethau craidd yng ngwaith Llywodraeth Cymru ar glefydau anifeiliaid.

NFU CYMRU

Cyhoeddwyd gan NFU Cymru, Tŷ Amaeth, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU Chwefror 2026.